

# Tai a digartrefedd - Adroddiad Byr



Comisiynydd Plant Cymru yw Rocio Cifuentes. Swydd y Comisiynydd ydy helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru i ddeall a derbyn eu hawliau plant. **Hawliau plant** yw'r pethau sydd eu hangen arnoch i dyfu yn hapus, yn iach ac yn ddiogel. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawliau yma.

## Mae hawliau plant yn cynnwys



**Erthygl 12: Y**r hawl i bobl gwrando arnoch chi ac i gymryd chi o ddifri



**Erthygl 19:** Yr hawl i gael eich cadw'n ddiogel



**Erthygl 27:** Yr hawl i gael cartref, bwyd a dillad addas

Widgit

## Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae hyn yn golygu y dylai eich cartref fod yn ddiogel a'ch helpu i gadw'n iach. Ond rydyn ni'n gwybod y gall cartrefi plant fod yn anniogel weithiau neu ddim yn addas iddyn nhw a'u teuluoedd. Gall hyn effeithio ar iechyd, hapusrwydd a diogelwch plant - ac mae hynny'n golygu nad ydyn nhw'n derbyn eu hawliau.

Roedden ni eisiau dysgu mwy am brofiadau plant a phobl ifanc.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales



Siaradon ni gyda 15 o blant a phobl ifanc ar draws Cymru. Roedd rhai yn byw mewn tai, fflatiau, B&B, carafanau, a rhai wedi byw mewn llawer o lefydd gwahanol dros y misoedd diwethaf.



## Beth ddywedodd plant wrthym ni?









- Roedd llawer wedi cael problemau mawr gyda'u tai. Roedd hyn yn cynnwys pethau fel byw gyda tho wedi torri, toiledau wedi torri, problemau gyda'r trydan, llwydni (mould) a lleithder (damp), a pheidio â theimlo'n ddiogel.
- Gall problemau gyda thai gael effaith ar iechyd corfforol plant. Clywon ni am broblemau anadlu oherwydd llwydni, a phlant ddim yn gallu bwyta bwydydd iach oherwydd doedd dim pethau addas fel ffwrn eu cartref.
- Dywedodd rhai plant wrthym ni bod nhw'n poeni'n fawr am eu tai.
- Gall cartrefi weithiau deimlo'n rhy fach, yn enwedig os ydy teuluoedd mawr yn rhannu mannau bach. Gall hyn effeithio ar ba mor dda maen nhw'n cysgu, faint o breifatrwydd sydd ganddyn nhw, a faint o le sydd ganddyn nhw i ymlacio a chwarae.
- Dywedodd rhai plant bod eu cartrefi yn effeithio ar eu haddysg. Clywon ni bod dim lle weithiau i wneud gwaith ysgol, a dywedodd un plentyn fod nhw ddim yn gallu defnyddio'r desg yn ei ystafell wely oherwydd y llwydni ar y waliau. Weithiau gall plant gael eu symud i dŷ sydd ymhell i ffwrdd o'u hysgol, sy'n gallu gwneud eu taith i'r ysgol yn hir ac yn flinedig.
- Mae teulu, diogelwch, cysur, teimlo'n 'cosy', a'u gwely i gyd yn bethau sy'n gwneud cartref da.

# Beth rydyn ni eisiau i ddigwydd?

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Rydyn ni eisiau bod gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gartref addas sy’n eu helpu i dyfu i fyny yn hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod nhw’n gwrando ar farn a phrofiadau plant a phobl ifanc ar dai.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Rydyn ni wedi ysgrifennu adroddiad llawn i Lywodraeth Cymru gyda’r newidiadau rydyn ni eisiau gweld i dai yng Nghymru.

Byddwn ni’n parhau i rannu eich profiadau gyda Llywodraeth Cymru ac eraill – rydyn ni eisiau i'r hyn rydych chi wedi'i rhannu i arwain at newidiadau positif